

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA(P)VG/0600/18

Rhun ap Iorwerth AC
Aelod Cynulliad Ynys Môn
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Rhun.apiorwerth@cynulliad.cymru

13 Ebrill 2018

Annwyl Rhun,

Yn dilyn Amser Cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Ionawr, mae'r Prif Weinidog wedi gofyn imi ysgrifennu atoch ynghylch tacsis ambiwlans.

Fel yr esboniais gynt, mae'r cynlluniau trawsnewid sydd wedi'u sefydlu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC) ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAT) wedi gwneud cynnydd cyson wrth wella ansawdd a pherfformiad gwasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys.

Ers Mehefin 2017, mae EASC a WAST wedi cydweithio i ddatblygu fframwaith comisiynu cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys. Mae'r fframwaith yn nodi'r safonau gofal, y model ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a'r trefniadau adrodd ar berfformiad a fydd yn ysgogi gwelliannau pellach mewn gwasanaethau. Mae'r fframwaith yn gweithredu yn ei ffurf gysgodol i brofi ei effeithiolrwydd a disgwylir iddo ddod i rym yn genedlaethol erbyn haf 2018.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud ei bod wedi gwneud gwelliannau sylweddol i nifer o wasanaethau ac mae'r rhain wedi darparu gwell canlyniadau a phrofiad i'r claf. Ymhlith y gwelliannau mae:

- 77% o gleifion arenol yn cyrraedd o fewn munud 30 munud i amser eu hapwyntiad a 72% o gleifion yn cael eu hebrwng adref o fewn 30 munud ar ôl diwedd eu triniaeth. Ni chollodd unrhyw glaf apwyntiad dialysis oherwydd diffyg trafndiaeth yn ystod y cyfnod hwn;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- 65% o gleifion eraill yn cyrraedd o fewn 30 munud i amser eu hapwyntiad ac 83% o gleifion yn cael eu hebrwng adref o fewn 60 munud i' ddiwedd eu hapwyntiad. Llai na 13% o deithiau cleifion yn cael eu terfynu;
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi profi cynlluniau i ddarparu llety dros nos i gleifion sy'n gorfod teithio'n rheolaidd dros bellter hir i gael triniaeth ac maent bellach yn gwerthuso adborth y cleifion cyn gwneud unrhyw benderfyniadau i estyn y cynllun, a
- mae strwythur rheoli newydd wedi sicrhau cydymffurfiad gwell â system berfformiad newydd ac mae hyn wedi gwella cymhelliant a llesiant y staff a lleihau absenoldeb salwch.

Rwyf yn parhau i fonitro'r cynnydd ar berfformiad gwasanaeth cludo cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys trwy fy nhrafodaethau â'r Comisiynydd Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng a'r Ymddiriedolaeth.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services